

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

1. Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn ar 3 Mawrth 2021 a'i osod gerbron y Senedd ar 4 Mawrth 2021. Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2021.

Cefndir a diben

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Diben y Rheoliadau hyn yw pennu estyniad i'r amrywiad dros dro cyfredol i'r cyfraddau a'r bandiau Treth Trafodion Tir y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 2020, a fydd yn berthnasol wrth brynu rhai trafodion eiddo preswyl. Mae'r estyniad hwn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021; gan ddarparu cyfnod newid dros dro parhaus rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021, gyda'r cyfraddau a'r bandiau yn dychwelyd i'r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020, ar ôl y dyddiad hwnnw.

3. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau a'r bandiau fel yr oeddent yn gymwys cyn 27 Gorffennaf 2020 (pan ddaeth y cyfraddau dros dro i rym o dan Reoliadau 2020) a'r cyfraddau dros dro a fydd bellach yn cael eu hymestyn gan y rheoliadau hyn tan 30 Mehefin 2021.

<i>Ystyriaeth berthnasol</i>	<i>Cyfradd ganrannol y dreth</i>	<i>Cyfraddau dros dro</i>
	<i>(Gosodwyd gan Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018)</i>	<i>Gosodwyd gan Reoliadau 2020 a'u hymestyn gan Reoliadau 2021</i>



Nid mwy na £180,000	0%	0%
Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000	3.5%	
Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000	5%	Dim newid
Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000	7.5%	Dim newid
Mwy na £750,000 ond dim mwy na £1,500,000	10%	Dim newid
Mwy na £1,500,000	12%	Dim newid

Gweithdrefn

Gweithdrefn Gadarnhaol Dros Dro.

4. Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb i ddrafft gael ei osod gerbron - a'i gymeradwyo gan - y Senedd.

5. Yn ei llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2021 i'r Llywydd, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei bwriad i drafod y rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth 2021.

Rhinweddau: craffu

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i'r ansicrwydd wrth inni symud o frig y pandemig a thuag at ein hadferiad economaidd." Yn ôl y Memorandwm Esboniadol hefyd, "Bydd y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl yn mynd yn ôl i'r rhai a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020 ar 1 Gorffennaf 2021."¹

¹ Memorandwm Esboniadol

7. Dywedodd y Gweinidog yr hyn a ganlyn ynghylch y goblygiadau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22:

“...compared to the OBR's LTT forecast used for the final budget, the extension means that there will be a reduction in revenues by £8 million in 2021-22. But that's less than the £26 million additional that the Welsh Government will receive as a result of the UK Government's decisions on stamp duty land tax, so there is a net benefit to us here in Wales.”²

Ymateb y Llywodraeth

8. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Barn y Pwyllgor

9. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull gwahanol i Lywodraeth y DU sydd wedi penderfynu ar system lle dychwelir yn raddol at gyfraddau treth dir y dreth stamp a oedd ar waith cyn y pandemig erbyn diwedd mis Medi.³

10. Er y dywedodd y Gweinidog y byddai estyn y gostyngiad treth trafodiadau tir yn golygu gostyngiad o £8 miliwn o ran refeniw, mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyllid o £26 miliwn sy'n dod i Gymru yn sgil cyhoeddiad polisi treth dir y dreth stamp Llywodraeth y DU.

11. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r Rheoliadau.

² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraff 153

³ [UK Government, extension of temporary increase to the stand duty tax nil rate band for residential properties](#)
